# GWASANAETH ARLWYO
# PRIFYSGOL BANGOR

## Bwyd blasus ar gyfer pob achlysur

---

E-bost: Reservations@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382558

Ionawr 2023





# Yma i chi...

Edrychwch ar ein gwefan am y fersiwn ddiweddaraf o'n bwydlen.
Os bydd problemau gyda chyflenwi unrhyw gynhwysion rydym yn cadw'r hawl i newid neu amnewid eitemau ar y fwydlen.

**Archebu**
Gellwch archebu'n rhwydd a bydd ein staff cyfeillgar yn barod i gynnig cyngor i chi dydd Llun i dydd Gwener 9am - 5pm. Cysylltwch â ni drwy ffonio **01248 382 558** neu gyrrwch neges at **reservations@bangor.ac.uk.**

Rydym yn croesawu archebion ymlaen llaw. Yn ddelfrydol gofynnwn i chi archebu o leiaf 7 diwrnod cyn y digwyddiad er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni eich gofynion. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i ymdrin ag archebion munud olaf ond gall hyn olygu na fydd rhai bwydlenni/eitemau ar gael ac efallai y ceir oedi o ran danfon y bwyd. **Codir ffi archebu hwyr o £30 fesul archeb am archebion a wneir gyda llai na 48 awr o rybudd.**

**Bwydlen arbennig**
Os hoffech gael bwydlen wedi ei pharatoi'n arbennig ar gyfer digwyddiad a / neu wasanaethau digwyddiad, a fyddech cystal â ffonio neu anfon e-bost i'r Swyddfa Archebion gyda'r manylion.

**Alergenau a dietau arbennig**
Holwch am ragor o wybodaeth ynglŷn ag eitemau a chacennau'r bwffe o ran, di-glwten, cynnyrch llaeth/lactos, fegan, di-gnau. Gall ein tîm eich helpu gyda alergenau yn ein bwydlenni. Os oes gennych chi neu un o'ch gwesteion alergedd bwyd, rhowch wybod i ni wrth archebu.

**dll = di llaeth, ll = llysieuol, f = figan, *Gellid ei addasu ar gyfer cwsmer sydd angen prydau heb glwten, ond mae bwyd yn cael ei baratoi mewn cegin lle mae glwten yn bodoli.**

# Bwydydd Bore Ar gael o 8am - 11.30am

| | Heb TAW | Gyda TAW |
|---|---|---|
| Bap bacwn neu sosej porc o Gymru gyda saws | £2.95 | £3.54 |
| Bap brecwast sosej lysieuol gyda saws | £2.95 | £3.54 |
| *Croissant* ffres gyda menyn a jam (ll) | £1.75 | £2.10 |
| Platiad o ffrwythau ffres tymhorol – y pen | £1.40 | £1.68 |
| Cacennau Danaidd bach (2) (ll) | £1.85 | £2.22 |



(Rhaid archebu 5 o leiaf)

E-bost: Reservations@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382558

# Bwydlenni Bwffe Ar gael o 8am - 5pm

## Cinio Gwaith 1

| Heb TAW | Gyda TAW |
|---|---|
| £6.15 | £7.38 |

- Detholiad o frechdanau ffres a rholiau gyda **llenwadau llysieuol** wedi'u gwneud ar y safle. Llenwadau chig a physgod ar gael ar gais (4 darn).
- Powlenaid o greision

### Pwdin

- Platiad o ffrwythau ffres tymhorol
- Brownie siocled gartref Prifysgol Bangor (ll)

### Ychwanegion

| | Heb TAW | Gyda TAW |
|---|---|---|
| Salad pasta troellog, ffeta, tomato a phupur (ll) | 95c | £1.14 |
| Colslo cartref (ll,dg) | 95c | £1.14 |
| Salad cymysg mân | 95c | £1.14 |

## Cinio Gwaith 2

| Heb TAW | Gyda TAW |
|---|---|
| £7.95 | £9.54 |

### Sawrus

- Detholiad o frechdanau ffres a rholiau gyda **llenwadau llysieuol** wedi'u gwneud ar y safle. Llenwadau chig a physgod ar gael ar gais (3 darn)
- Selsigau coctel o Gymru mewn mêl (dh)
- Tarten caws gafr a nionod melys (ll)
- Cibabs cyw iâr mewn saws tsili melys*

### Pwdin

- Teisen gartref â diferion lemwn a leim (ll)
- Platiad o dafelli ffrwythau ffres tymhorol

(Rhaid archebu 5 o leiaf)

# Bwydlenni Bwffe Ar gael o 11am - 5pm

## Bwydlen Lysieuol

| Heb TAW | Gyda TAW |
|---|---|
| £7.50 | £9.00 |

Detholiad o frechdanau a tortillas â llenwadau llysieuol. (3 darn)
*(Torth gnau wedi'i rhostio gyda saws llugaeron, caws Cheddar a nionyn mewn mayonnaise, pate ffacbys coch a thomato, salad argy bhaji)*

### Sawrus

- Pwff madarch a chaws hufen (ll)
- Coctel mozzarella, falfel a thomatos bach gyda dip barbeciw (ll)*
- Bara pita gyda hwmws, ffyn pupur a moron (ll,f,dll)
- Crempogau llysiau a saws tsili melys (ll,f)

### Pwdin

- Platiad o ffrwythau ffres tymhorol
- Brownie siocled gartref Prifysgol Bangor (ll)

(Rhaid archebu 5 o leiaf)

---

E-bost: Reservations@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382558

Rydym bob tro yn hapus i drafod unrhyw ofynion dietegol arbennig. I drafod ymhellach, rhowch alwad inni neu anfon e-bost atom.

bwyd food Bangor

GWASANAETH ARLWYO PRIFYSGOL BANGOR



# Ychwanegion

## Ychwanegion

| | Heb TAW | Gyda TAW |
|---|---|---|
| Dim sum amrywiol gyda dip tsili melys (2) (dll) | **£1.40** | **£1.68** |
| Wontons llugaerone a brie (2) (ll) | **£1.40** | **£1.68** |
| Bahjis nionod pob gyda dip raita (2) (ll,dll,f)* | **£1.20** | **£1.44** |
| Creision wedi'u coginio â llaw | **95c** | **£1.14** |
| Saladau ffres cartref - y pen | **95c** | **£1.14** |

- Salad cymysg (dll,f,ll)*
- Colslo caws cheddar (v)*
- Salad pasta troellog, ffeta, tomato a phupur (ll)

## Pecyn Cinio

| Heb TAW | Gyda TAW |
|---|---|
| **£5.75** | **£6.90** |

- Brechdan premiwm lysieuol (llenwadau cig a physgod ar gael ar gais)
- Creision
- Ffrwythau tymhorol
- Bar siocled bychan

(adiwch botel o dŵr Cymreig (500ml) **£1.15 heb TAW £1.38 gyd TAW**)

(Rhaid archebu 5 o leiaf)

E-bost: Reservations@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382558

# Ffres o'r Gegin ...

Mae ein cacennau cartref wedi'u paratoi'n ffres ar y safle gan ein tîm arlwyo profiadau.



GWASANAETH ARLWYO PRIFYSGOL BANGOR

# Ychwanegion

## Teisennau a Ffrwythau

| | Heb TAW | GydaTAW |
|---|---|---|
| Brownie siocled “Prifysgol Bangor” | £1.65 | £1.98 |
| Cacen gwpan (dewis dyddiol y cogydd) | £1.45 | £1.74 |
| Bara brith (1 dafell) | £1.35 | £1.62 |
| Cacennau cri (2) | £1.35 | £1.62 |
| Teisen frau’r miliwnydd | £1.20 | £1.44 |
| Sgon ffres agored gyda jam a hufen chwip (2) | £1.85 | £2.22 |
| Pecyn o ddwy fisgeden | 80c | 96c |
| Platiad o dafelli ffrwythau ffres tymhorol y pen | £1.40 | £1.68 |
| Cibab ffrwythau ffres (1) | £1.15 | £1.38 |

(Rhaid archebu 5 o leiaf)







E-bost: Reservations@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382558

# Ychwanegion

## Diodydd Meddal

| | Heb TAW | Gyda TA |
|---|---|---|
| Dŵr mwynol llonydd o Gymru 750ml | £2.50 | £3.00 |
| Dŵr mwynol pefriog o Gymru 750ml | £2.50 | £3.00 |
| Dŵr mwynol llonydd neu befriog o Gymru 500ml | £1.15 | £1.38 |
| Sudd ffrwythau ltr - (tua 6 gwydriad am bob litr) | £2.75 | £3.30 |
| *(Dewis o sudd llugaeron, oren neu afal)* | | |
| Diod ysgawen (750ml) | £3.50 | £4.20 |

## Te a Choffi

### Opsiwn 1 - dyma a geir yn sylfaenol

| Heb TAW | Gyda TAW |
|---|---|
| £1.55 | £1.86 |

Coffi wedi'i hidlo, te, coffi heb gaffein, te perlysieuol

### Opsiwn 2

| Heb TAW | Gyda TAW |
|---|---|
| £2.25 | £2.70 |

Coffi wedi'i hidlo, te, coffi di-gaffein, te perlysieuol a bisgedi

(Rhaid archebu 5 o leiaf)

FAIRTRADE

Rydym yn falch i gefnogi masnach deg a dim ond te a choffi sydd yn cario'r label masnach deg a fydd yn cael ei gweni gennym.

E-bost: Reservations@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382558

bwyd food Bangor

GWASANAETH ARLWYO PRIFYSGOL BANGOR

# Gwybodaeth Archebu a Chysylltu

Gellwch archebu'n rhwydd a bydd ein staff cyfeillgar yn barod i gynnig cyngor drwy e-bost neu dros y ffôn.

Rydym wedi creu amrywiaeth o fwydlenni, ond os ydych angen cynllunio ar gyfer digwyddiad arbennig, neu fod gennych rywbeth penodol mewn golwg cysylltwch â swyddfa'r gynhadledd. Rydym ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.00am a 5.00pm.

Mae angen cadarnhau pob archeb arlwyo trwy anfon e-bost at reservations@bangor.ac.uk.

Bydd rhaid i'r cadarnhad gynnwys

- Enw Cyswllt, Adran / Cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.
- Cyfarwyddiadau danfon yn cynnwys yr ystafell a'r adeilad / enw'r adran.
- Gofynion arlwyo, yn enwedig ceisiadau dietegol arbennig / gwybodaeth am alergeddau cwsmeriaid
- Gwybodaeth am filio megis cod cost prifysgol, archeb bryniant a chyfeiriad anfoneb.
- Y dyddiad a chyfarwyddiadau amseru, yn cynnwys pryd yr hoffech dderbyn y bwyd ac amser y digwyddiad ei hun. Hefyd, nodwch yr amser gorau i glirio a chasglu'r offer arlwyo a ddefnyddiwyd.

**Rydym yn croesawu archebion ymlaen llaw. Yn ddelfrydol gofynnwn i chi archebu o leiaf 7 diwrnod cyn y digwyddiad er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni eich gofynion. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i ymdrin ag archebion munud olaf ond gall hyn olygu na fydd rhai bwydlenni/eitemau ar gael ac efallai y ceir oedi o ran danfon y bwyd. Codir ffi archebu hwyr o £30 fesul archeb am archebion a wneir gyda llai na 48 awr o rybudd.**

**Os hoffech gael bwydlen wedi ei pharatoi'n arbennig ar gyfer digwyddiad a / neu wasanaethau digwyddiad, a fyddech cystal â ffonio neu anfon e-bost i'r Swyddfa Archebion gyda'r manylion.**

**Mae ein bwydlen yn cynnwys alergeddau. Gofynnwch i'n staff am wybodaeth bellach os oes gennych chi neu eich gwesteion unrhyw alergeddau.**

# Gwybodaeth Archebu a Chysylltu

## Ychwanegiadau defnyddiol

**Gweinyddion a Gweinyddesau**
Gellir darparu gwasanaeth gweinyddion a gweinyddesau ar gais. Holwch am ddyfynbris unigol.

**Cyffyrddiadau Terfynol**
Mae amrywiaeth lawn o leiniau bwrdd a napcynau ar gael ar gais.

## TAW

Ychwanegir TAW yn ôl y raddfa gyfredol i'r prisiau ar gyfer anfonebau allanol.

## Polisi Canslo

Bydd canslo neu ostyngiad sylweddol mewn niferoedd, a dderbynnir 48 awr cyn danfon yn arwain at ffi o 50% o'r gost lawn.

Yn anffodus, codir tâl llawn os byddwch yn canslo'r archeb gyda 24 awr neu lai o rybudd.

## Cyfarwyddiadau danfon ac amodau

Amseroedd danfon safonol ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-5pm. (Bydd archebion ar gyfer digwyddiadau sy'n disgyn y tu allan i oriau arferol y gwasanaeth yn amodol ar argaeledd staff, ac rydym yn argymell eich bod yn archebu mewn da bryd.)

## Danfon i Gampws Prifysgol Bangor

Sylwch fod tâl isafswm o £20 fesul danfoniad, ar gyfer pob archeb i gylch Campws Prifysgol Bangor o'r safle Gwyddorau Eigion ym Mhorthaethwy i Stryd y Deon, Bangor.

# Gwybodaeth Archebu a Chysylltu

## Danfon tu allan i Gampws Prifysgol Bangor

Am bob archeb arall mewnol ac allanol tu allan i'r cylch hwn, beth bynnag y lleoliad, rhaid gwario o leiaf £20 ar bob danfoniad ynghyd â chostau teithio o £1 y filltir ar gyfer danfon a chasglu.

Bydd archebion ar gyfer digwyddiadau sy'n disgyn y tu allan i oriau arferol y gwasanaeth yn amodol ar argaeledd staff, ac rydym yn argymell eich bod yn archebu mewn da bryd.

# Gwybodaeth Archebu a Chysylltu

## Danfon

- Bydd pob eitem yn cael ei ddarparu gyda'r llestri, gwydrau, napcynau a llieiniau bwrdd safonol oni bai eich bod yn gofyn am ddeunyddiau tafladwy neu os ystyrir mai dyna sydd orau er mwyn lleihau'r gwaith codi a chario.
- Gofalwch fod yr ystafell wedi ei harchebu os gwelwch yn dda a bod y lleoliad yn addas gyda mynediad rhwydd i'r tîm sy'n danfon (mynediad o lifft os yw'n uwch neu'n is na'r llawr gwaelod). **Gwnewch yn siŵr bod digon o le ar gyfer y digwyddiad, yn cynnwys unrhyw fyrddau sydd eu hangen ar gyfer yr arlwyo.**
  **I holi am fyrddau cysylltwch â'r tîm cynnal a chadw ar 01248 38 2783 neu e-bostio gwasanaethaucampws@bangor.ac.uk.**
  Yn anffodus ni all ein staff danfon ddarparu na symud byrddau i chi.
- Bydd yr holl fwyd bwffe a lluniaeth yn cael eu gosod allan i chi pan gânt eu danfon.
- Mae'r holl fwyd yn cael ei ddanfon mewn cerbydau gyda tymheredd wedi eu rheoli.

## Storio Bwyd

- Ar ôl i'ch bwyd gael ei ddanfon, storiwch ef yn ofalus fel nad yw yn llygaid yr haul na ffynonellau gwres.
- Cadwch y bwyd dan orchudd nes y bydd ei angen er mwyn ei gadw'n ffres.
- Mae bwyd yn dirywio pan gaidd ei adael yn nhymheredd yr ystafell am gyfnodau hir.
- Rydym yn eich cynghori i fwyta'r bwyd o fewn yr amser a nodir ar y cerdyn danfon.
- Bwyd dros ben; am resymau iechyd a diogelwch caiff yr holl fwyd sydd dros ben ei gasglu i'w ail ailgylchu gan y tîm arl-wyo yn unol â'n Polisïau Diogelwch Bwyd a Chynaliadwyedd.

## Casglu

- Byddwn yn ceisio casglu'r holl offer arlwyo ar yr un diwrnod (yn ôl yr amser a awgrymir gennych ar gyfer eu casglu) neu erbyn 10.00am y diwrnod canlynol.
- Mae ein holl blatiau bwffe yn rhai y gellir eu hailddefnyddio er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd.
- **Codir tâl os bydd offer y gwasanaeth ar goll neu ddim ar gael i'w gasglu ar ôl eich digwyddiad.**


BUTTER
BUTTER

Mae'r holl fwyd yn cael ei baratoi yn ein cegin lle mae cnau, glwten ac alergenau eraill yn bresennol.Mae prosesau a hyfforddiant yn eu lle mewn perthynas ag ymwybyddiaeth alergenau.

**OS OES GENNYCH ALERGEDD BWYD RHOWCH WYBOD I NI CYN ARCHEBU.**

Nid yw'r disgrifiadau ar y fwydlen yn cynnwys yr holl gynhwysion. Mae gwybodaeth lawn am alergenau ar gael ar gais.




SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING

Ewch i food.gov.uk/ratings i ddod o hyd i sgôr bwyd ein busnes, neu gofynnwch i ni am ein sgôr hylendid bwyd pan fyddwch chi'n archebu.

Cysylltu â ni :
E-bost: Reservations@bangor.ac.uk
Ffôn: 01248 382558

Mae Bwyd Bangor yn cael ei reoli a'i redeg gan Adran Gwasanaethau Campws Prifysgol Bangor

BWYTA · YFED BANGOR EAT · DRINK

EATDRINKBANGOR